**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

28 Mehefin 2023

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 9 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae'r Rhan honno yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr cyfleusterau deunyddiau hysbysu'r rheoleiddiwr os ydynt yn derbyn 1,000 tunnell neu fwy o ddeunyddiau gwastraff. Rhai i weithredwyr gymryd sampl o'r gwastraff sy'n cyrraedd ac yn gadael y cyfleuster a chofnodi ac adrodd ar yr wybodaeth honno i'r rheoleiddiwr. Mae'r diwygiadau a wneir gan y rheoliadau hyn yn gwella'r data ar gyfansoddiad deunyddiau pacio gwastraff o gyfleusterau deunyddiau. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu tystiolaeth i gefnogi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, gan gynnwys asesu ffioedd cynhyrchwyr a thaliadau i awdurdodau lleol. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys y canlynol:

   - mae'r diffiniad o 'gyfleuster deunyddiau' wedi cael ei ddiwygio i gynnwys pob safle sy'n cyfuno gwastraff sych domestig wedi'i ailgylchu (neu wastraff o ffynonellau eraill sydd â chyfansoddiad tebyg i wastraff domestig wedi'i ailgylchu) yn sympiau, ni waeth ai dyna'r broses gyfuno gyntaf neu ar ôl i gyflenwyr arall gynnal y broses gyfuno gyntaf. Mae cyfleusterau deunyddiau sy'n rheoli deunyddiau sy'n cael eu gwahanu yn y ffynhonnell neu ffrydiau sengl o fewn y cwmpas hefyd, os ydynt yn cyfuno gwastraff o nifer o gyflenwyr neu'n gwahanu gwastraff.

   - Bydd gan gyfleusterau deunyddiau restr hwy o ddeunyddiau i samplu yn eu herbyn hefyd. Ynghyd â'r deunyddiau sydd â tharged, deunyddiau nad oes ganddynt darged a deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu, bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol samplu ac adrodd ar ddeunyddiau o'r Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio a'r Cynllun Dychwelyd Ernes (ac eithrio gwydr o'r Cynllun Dychwelyd Ernes). Rhaid i'r deunyddiau sy'n cael eu nodi mewn sampl mewnbwn, fan leiaf, gael eu nodi ar wahân drwy gyfeirio at set newydd o gategorïau o ddeunyddiau. Mae'r rhain yn cynnwys gwydr, papur, cardfwrdd, ffilm blastig a deunyddiau hyblyg, poteli plastig, potiau plastig, tybiau a hambyrddau, cyfansoddion ffeibr, alwminiwm a dur. Mae darpariaeth ddisgresiynol wedi cael ei rhoi yn y rheoliadau i ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ofyn am samplau o ddeunydd pacio gwydr am gyfnod penodol yn dilyn rhybudd o 28 diwrnod.

   - Bydd yr amlder samplu'n cael ei gynyddu o 60kg bob 125 tunnell i 60kg bob 75 tunnell o fewnbwn fesul cyflenwr. Bydd yn ofynnol hefyd i gyfleusterau sy'n rheoli ffrydiau gwastraff sydd wedi'i wahanu yn y ffynhonnell samplu ar amlder o 60kg bob 75 tunnell o fewnbwn fesul cyflenwr.

- Rhaid i gyfleusterau deunyddiau adrodd i CNC ar yr holl ddata crai a gofnodir, yn ogystal â gwybodaeth am gyflenwyr a chyrchfan y gwastraff maent yn ei reoli.

- Darpariaethau i'r rheoleiddiwr, sef CNC, rannu'r data hwn â Gweinyddwr y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio.

- Mae hyd y cyfnod y mae'n ofynnol cadw cofnodion o'r wybodaeth a gofnodir amdano ar ôl i'r rheoliadau hyn ddod i rym yn cael ei estyn o bedair blynedd i saith mlynedd.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2. Er bod eu natur yn dechnegol, bydd y rheoliadau'n ehangu cwmpas y cyfleusterau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 2 o Atodlen 9 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ar hyn o bryd. Mae Rhan 2 o Atodlen 9 yn creu amodau trwydded ar gyfer y mathau hynny o gyfleusterau (wedi'u hehangu). Mae methu cydymffurfio ag amod trwydded yn drosedd o dan Reoliad 38(2) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Bydd y rheoliadau yn ychwanegu rhagor o ofynion i'r hyn a oedd yn cael ei ganiatáu yn flaenorol. Mae hyn yn sbarduno adran 2(9)(d) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, ac felly bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig o'r gweithdrefn gadarnhaol.

3. Disgwylir i'r rheoliadau gael eu gwneud ym mis Hydref 2023. Bydd yn ofynnol i bob cyfleuster deunyddiau yn y cwmpas gydymffurfio â'r Rheoliadau erbyn 1 Hydref 2024, ac adrodd ar ddata'r chwarter cyntaf i'r rheoleiddiwr erbyn 1 Ionawr 2025.

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi dewis arfer eu pwerau o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson, o ystyried y gorgyffwrdd gweithredol trawsffiniol sylweddol ar gyfer busnesau a rheoleiddwyr.

5. Gan y bydd y rheoliadau'n destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir ei bod yn ymarferol resymol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.

**Y Cefndir Deddfwriaethol**

6. Gwneir y rheoliadau diwygio hyn gan ddefnyddio pwerau o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Yn wreiddiol roedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pwerau mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

Fodd bynnag, cafodd swyddogaethau hyn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn gymaint ag y gellid eu harfer mewn perthynas â Chymru, eu trosglwyddo wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (O.S. 2005/1958). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32).

7. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael.**

8. Un o amcanion Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yw sicrhau bod cynhyrchwyr deunyddiau pacio'n derbyn y cyfrifoldeb am gost lawn rheoli’r deunyddiau pacio maent yn eu rhoi ar y farchnad. I gyflawni Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, mae angen data gwell ar y deunyddiau pacio gwastraff sy'n cael eu casglu, eu cyfuno a'u didoli gan gyfleusterau deunyddiau. Bydd y data gwell hwn ar ddeunyddiau pacio gwastraff a gesglir a rheolir gan gyfleusterau deunyddiau'n sail i'r mecanweithiau taliadau sy'n gysylltiedig â thunelledd ac ansawdd a ddefnyddir o fewn y system Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o fonitro a yw targedau ailgylchu yn cael eu cyflawni.

9. Mae'r bosibl y bydd y data gwell a gesglir o dan y rheoliadau hyn yn cael ei rannu gan CNC â Gweinyddwr y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (ar ôl iddo gael ei sefydlu) at ddiben ei ddefnyddio i gyflawni eu swyddogaethau o dan y cynllun hwn.

10. Ar hyn o bryd mae Rhan 2 o Atodlen 9 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer samplu ac adrodd a roddir ar gyfleusterau adfer deunyddiau a ganiateir. Nid yw'r data sy'n cael ei gasglu gan gyfleusterau deunyddiau ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2016 yn ddigon cynhwysfawr at ddibenion Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, gan nad ydynt yn cynnwys yr holl gyfleusterau y mae angen eu cynnwys (y rhai sy'n cynnal y broses pwyso a chyfuno gwastraff gyntaf (fel safleoedd trosglwyddo a safleoedd sy'n cyfuno gwastraff yn sympiau), na chyfrannau na chyfansoddiad y deunyddiau pacio sy'n symud drwy'r system wastraff.

11. Yn hytrach na gofyn am brotocol samplu ar wahân i gyfleusterau deunyddiau ar gyfer dadansoddi deunyddiau pacio gwastraff, mae Rhan 2 bresennol o Atodlen 9 yn gael ei gwella, a'i chwmpas yn cael ei hehangu, er mwyn cofnodi gwybodaeth am y deunyddiau pacio gwastraff sy'n cael eu derbyn, eu didoli a/neu eu sympio, i gefnogi gofynion data Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio.

Bydd hyn yn lleihau'r baich samplu ac adrodd ar y cyfleusterau hynny sydd o fewn y cwmpas ar hyn o bryd, fel eu bod yn cynnal un gyfundrefn samplu yn unig yn hytrach na dwy gyfundrefn debyg.

12. Diben cyffredinol diwygio Rhan 2 o Atodlen 9 yw cynyddu manylder y data ar wastraff yr adroddir arno gan gyfleusterau deunyddiau i ysgogi gwelliannau i ansawdd deunyddiau eildro, gan gynnwys data gwell ar y tunelleddau a chyfansoddiad deunyddiau pacio i gefnogi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

    - Samplu ac adrodd gwell gan gyfleusterau deunyddiau sy'n rheoli gwastraff, i gael data gwell ar gyfansoddiad ac ansawdd deunyddiau pacio gwastraff i gefnogi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio.

    - Ehangu cwmpas y cyfleusterau deunyddiau y mae rhaid iddynt samplu ac adrodd i gynnwys safleoedd cyfuno a'r rhai sy'n rheoli ffrydiau gwastraff sy'n cael eu gwahanu yn y ffynhonnell. Bydd hyn yn helpu i gasglu cymaint o wybodaeth ag y bo modd am y gwastraff sy'n teithio drwy'r system, a deall cyfansoddiad ac ansawdd gwastraff cyflenwyr unigol.

    - Cynyddu'r categorïau o ddeunyddiau sydd i'w samplu er mwyn gwahaniaethu rhwng deunyddiau pacio a deunyddiau nad ydynt yn ddeunyddiau pacio, ynghyd â rhagor o gategorïau o ddeunyddiau i'w samplu.

    - Cynnwys darpariaethau i'r rheoleiddwyr allu rhannu'r data hwn â Gweinyddwr y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

13. Bydd canllawiau diwygiedig ar gyfer cyfleusterau deunyddiau ar eu gofynion samplu ac adrodd yn cael eu cyhoeddi cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym ym mis Hydref 2024. Bydd fersiwn ddrafft o'r canllawiau diwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar GOV.UK.

14. Bydd DEFRA a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r rheoleiddwyr perthnasol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gofynion samplu ac adrodd newydd, cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

**Ymgynghori**

15. Ym mis Mawrth 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cyd â Llywodraethau eraill y DU ar Gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio. Roedd yr ymgynghoriad deg wythnos yn amlinellu pwysigrwydd coladu ac adrodd ar ddata ynglŷn â deunyddiau pacio oddi wrth awdurdodau lleol a chyfleusterau deunyddiau (safleoedd trosglwyddo, safleoedd sy'n cyfuno deunyddiau a chyfleusterau didoli) sy'n derbyn ac yn ymdrin â deunyddiau pacio

gwastraff at ddibenion Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, gan gynnwys cyfrifo taliadau. Cynigir y dylai cyfleusterau deunyddiau sy'n cynnal y broses cyfuno gwastraff gyntaf adrodd ar y deunyddiau pacio sy'n cael eu casglu, eu rheoli a'u hailgylchu. Roedd y cynigion ymgynghori hyn yn derbyn cefnogaeth gref.

16. Roedd ymateb ar y cyd y llywodraethau i'r ymgynghoriad ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yn cytuno ar y canlynol:

- Bydd safleoedd sy’n cynnal y broses gyfuno gyntaf a chyfleusterau deunyddiau eraill sy'n erbyn deunyddiau eildro cymysg sych a/neu ddeunyddiau eildro wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell i'w cyfuno a/neu eu didoli yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y rheoliadau diwygiedig.

- Bydd y trothwy de minimis presennol ar gyfer samplu pob 1,000 tunnell o fewnbwn yn cael ei gadw.

- Bydd y rhestr o gategorïau o ddeunyddiau mewnbwn y mae rhaid eu samplu ac adrodd yn eu herbyn yn cael ei diwygio i gyd-fynd â'r rhai a amlinellir yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn golygu cynnwys gategorïau ar wahân ar gyfer papur, cardfwrdd, ffilm blastig a deunyddiau hyblyg, poteli plastig, potiau plastig, tybiau a hambyrddau, cartonau bwyd a diodydd a chyfansoddion ffeibr, alwminiwm, dur a deunyddiau sy'n dod o dan y Cynllun Dychwelyd Ernes.

- Bydd dull ar wahân ar gyfer asesu gwydr yn cael ei ystyried, i fynd i'r afael â phryderon iechyd a diogelwch mewn perthynas â gwahaniaethau rhwng deunyddiau pacio a gwydr o'r Cynllun Dychwelyd Ernes a gwydr arall.

- Bydd yr amlder samplu'n codi o 60kg bob 125 tunnell i 60kg bob 75 tunnell. Bydd yr amlder ar gyfer samplu allbwn yn parhau i fod yr un fath.

- Yn dibynnu ar y ffrydiau gwastraff a dderbynnir a’r prosesau a gynhelir (cyfuno'n a/neu ddidoli) mewn cyfleuster deunyddiau, bydd y gofynion samplu ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn wahanol. Ni fydd angen i gyfleusterau deunyddiau nad ydynt yn cynnal prosesau didoli, ac nad ydynt ond yn cyfuno'r gwastraff a dderbynnir samplu allbwn.

- Bydd yn ofynnol i gyfleusterau deunyddiau sydd o fewn cwmpas y rheoliadau presennol fodloni'r gofynion newydd o fewn chwe mis i'r rheoliadau ddod i rym, a bydd yn ofynnol i bob cyfleuster deunyddiau fodloni'r rheoliadau o fewn 12 mis i'r rheoliadau ddod i rym. Fodd bynnag, ers cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, mae hyn wedi cael ei ddiwygio. Disgwylir i'r rheoliadau gael eu gwneud yn

y Senedd ym mis Hydref 2023, a bydd yn ofynnol i bob cyfleuster o fewn y cwmpas fodloni'r rheoliadau erbyn mis Hydref 2024.

17. Mae'r dogfennau ymgynghori, crynodeb o'r ymatebion a'r camau nesaf ar gael yn: Cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am ddeunyddiau pacio | LLYW.CYMRU

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Roedd asesiad o'r effaith ar ehangu cwmpas y cyfleusterau deunyddiau y mae'r gofynion samplu data yn berthnasol iddynt, i gefnogi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, yn rhan annatod o asesiad effaith yr ymgynghoriad ar ddiwygio system Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yn y DU. Mae'r Asesiad Effaith llawn ar gyfer yr ymgynghoriad hwnnw ar gael yma: Extended Producer Responsibility for Packaging – Defra – Citizen Space.

Ar hyn o bryd mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn rhoi dyletswydd ar gyfleusterau deunyddiau a ganiateir sy'n derbyn mwy na 1,000 tunnell y flwyddyn o gymysgedd o ddwy neu fwy o ffrydiau o ddeunyddiau ailgylchadwy (papur/cardfwrdd, gwydr, metelau a phlastig) i'w didoli. Yng Nghymru, mae angen i weithredwyr gynnal hunanasesiad i nodi a ydynt yn bodloni'r meini prawf, ac os ydynt, mae angen iddynt hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedyn samplu mewnbwn ac allbwn ac adrodd ar y samplu hwn bob chwarter. Cyfeirir at gyfleusterau deunyddiau sy'n bodloni'r meini prawf fel 'cyfleusterau deunyddiau hysbysu' ac ar hyn o bryd mae 14 cyfleuster deunyddiau hysbysu yng Nghymru. Mae cyfleusterau deunyddiau hysbysu yn cyflwyno eu data samplu fel meysydd ychwanegol yn eu datganiadau gwastraff chwarterol.

Bydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yn cyflwyno mecanwaith taliadau lle mae cynhyrchwyr sy'n rhoi deunyddiau pacio ar farchnad y DU yn talu cost net rheoli'r deunyddiau pacio hynny pan fyddant yn ddod yn wastraff. Bydd hyn yn cynnwys casglu a didoli deunyddiau pacio domestig a reolir gan awdurdodau lleol. Er mwyn penderfynu ar y costau hyn, bydd angen samplu ychwanegol i nodi faint o ddeunyddiau pacio sy'n cael eu rheol gan awdurdodau lleol mewn cyfleusterau sy'n cynnal y broses gyfuno gyntaf ar wastraff gan gyflenwyr a/neu ddidoli gwastraff yn ddeunyddiau allbwn penodol.

Mae Llywodraeth y Du a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ehangu'r gofynion ar gyfer cyfleusterau deunyddiau i gynnwys safleoedd sy'n cynnal y broses gyfuno gyntaf (gan gynnwys cyfleusterau trosglwyddo a sympio), ac i gynyddu'r

gofynion samplu i gynnwys deunyddiau pacio. Gallai'r newid yng nghwmpas y rheoliadau gynyddu nifer y cyfleusterau hysbysu yng Nghymru i tua 44[1].

**Yr Opsiynau**

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried ar gyfer rhoi'r cynigion hyn ar waith: Opsiwn anneddfwriaethol/gwirfoddol neu opsiynau deddfwriaethol i gynyddu'r gofynion samplu i gynnwys deunyddiau pacio.

**Yr Opsiwn Anneddfwriaethol:**

Nid yw opsiynau anneddfwriaethol neu wirfoddol yn briodol i gyflawni amcanion polisi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio. Mae angen i orfodi gael ei ategu gan ddeddfwriaeth a phwerau i alluogi'r rheoleiddwyr i orfodi amodau trwyddedau ar gyfleusterau deunyddiau. Mae methu cydymffurfio ag amod trwydded yn drosedd o dan ddeddfwriaeth trwyddedu amgylcheddol.

**Opsiwn Deddfwriaeth (Opsiwn 1):** Ehangu'r gofynion ar gyfer cyfleusterau deunyddiau i gynnwys safleoedd sy'n cynnal y broses gyfuno gyntaf (gan gynnwys cyfleusterau trosglwyddo a sympio) a chynyddu'r gofynion samplu i gynyddu manylder data a chynnwys cyfansoddiad deunyddiau pacio.

Mae'r adran ddilynol yn seiliedig ar Asesiad Effaith Llawn DEFRA ar gyfer Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig, ond mae wedi cael ei addasu i ddangos yr amcangyfrif gorau posibl o'r costau tebygol yng Nghymru. Mae manylion llawn y dystiolaeth a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gael ar dudalennau 49–53 o Asesiad Effaith DEFRA

**Cyfleusterau Deunyddiau**

Yn aml cyfleusterau deunyddiau fel safleoedd trosglwyddo neu sympio yw cyrchfan gyntaf y deunyddiau pacio i'w hailgylchu a gesglir oddi wrth aelwydydd a busnesau. Yma mae deunyddiau eildro yn cael eu sympio a / neu eu didoli i'w hanfon at gyfleuster deunyddiau arall neu at safle ailgylchu. Rhoddir gofynion eraill i ategu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio ar y

[1]Mae CNC bron â bod yn sicr y bydd 23 cyfleusterau'n cael eu cynnwys yn y cwmpas, a bydd angen rhagor o graffu ar 21 cyfleuster arall cyn eu cynnwys neu eu heithrio.

cyfleusterau hyn, i gyflwyno data samplu a data ar gyfansoddiad y deunyddiau pacio maent yn eu dderbyn a'u didoli. Bydd hyn yn arwain at gostau uwch i gyfleusterau deunyddiau. I dalu'r costau hyn, caiff cyfleusterau sydd o fewn y cwmpas gynyddu'r ffioedd maent yn eu codi am eu gwasanaethau. Felly byddai costau awdurdodau lleol a busnesau sy'n dod â deunyddiau i'w hailgylchu'n cynyddu.

**Costau i Gyfleusterau Deunyddiau**

Er mwyn rhoi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio ar waith, mae angen casglu data priodol ar lif deunyddiau pacio drwy'r system wastraff. Mae angen data i gyfrifo a gosod targedau, ffioedd a thaliadau, yn ogystal â monitro cydymffurfedd â'r cynllun.

At ddibenion Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, bydd yn ofynnol i unrhyw gyfleuster deunyddiau o fewn o cwmpas samplu deunyddiau mewnbwn, a phan fydd y cyfleuster yn cynnal proses i ddidoli deunyddiau yn ffrydiau targed, bydd angen cynnal samplu allbwn. Ystyrir bod cyfleuster deunyddiau yn y cwmpas os yw'n derbyn deunyddiau pacio gwastraff oddi wrth nifer o gasglwyr neu gyflenwyr gwastraff, ac yn cynnal y broses bwyso, gyfuno/sympio a / neu ddidoli gyntaf ar y deunyddiau pacio gwastraff, cyn eu hanfon at gyfleuster deunyddiau neu ailbroseswr arall, neu i'w hallforio. Bydd yn orfodol i gyfleusterau deunyddiau gynnal samplu a dadansoddi cyfansoddiad ac adrodd ar y data hwn i'r rheoleiddiwr.

Yn hytrach na rhoi cyfundrefn samplu ar wahân ar gyfleusterau deunyddiau ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, i leihau'r baich samplu ac adrodd ar gyfleusterau deunyddiau, mae'r rheoliadau presennol ar gyfer cyfleusterau deunyddiau'n cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i gyfleusterau deunyddiau samplu ac adrodd ar ddeunyddiau mewnbwn ac allbwn. At ddibenion Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, pan fydd cyfleusterau ychwanegol yn dod o fewn cwmpas y rheoliadau hyn (er enghraifft pan fydd cyfleuster deunyddiau'n cynnwys cyfleusterau sy'n rheoli ffrydiau o wastraff sy'n cael eu gwahanu yn y ffynhonnell), bydd y categorïau samplu mewnbwn yn newid, a bydd y cyfraddau samplu yn cynyddu o 60kg fesul 125 tunnell i 60kg fesul 75 tunnell. Mae hyn yn hanfodol am y bydd y data hyn yn allweddol ar gyfer nodi tystiolaeth o'r

deunyddiau pacio sy'n cael eu casglu a'u rheoli, a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o gyfrifo taliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio i awdurodau lleol. Cydnabyddir y bydd hyn yn cynyddu nifer y busnesau sy'n wynebu cost, yn ogystal â chynyddu lefel y gost i bob busnes.

Fel y mae gyda'r rheoliadau presennol, mae'r de minimis yn cael ei gadw fel y bydd safleoedd sy'n ymdrin â llai na 1,000 tunnell o wastraff y flwyddyn yn cael eu heithrio. Er mwyn nodi nifer y safleoedd yng Nghymru y mae'n debygol yr effeithir arnynt gan y rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r data o holl ddatganiadau gwastraff y safleoedd a ganiateir yng Nghymru a ddywedodd eu bod wedi derbyn gwastraff ym mlwyddyn galendr 2021.

- Cafodd pob safle a ddywedodd eu fod yn Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref, Safle Llosgi neu Safle Tirlenwi eu dileu o'r set ddata (safleoedd nad ystyrir eu bod o fewn cwmpas y rheoliadau diwygiedig).
- Cafodd pob safle a ddywedodd eu bod yn derbyn gwastraff tebyg i wastraff cartref yn eu mewnbynnau a/neu eu hallbynnau eu cadw ar y rhestr (gan gynnwys Catalog Gwastraff Ewropeaidd Penodau 15 a 20 (ffracsiynau ar wahân a chymysg)). Cafodd Pennod 19 Catalog Gwastraff Ewropeaidd (ffracsiynau ar wahân) ei dargadw hefyd i helpu i nodi a yw'n bosibl bod unrhyw weithgareddau gwahanu mewnbynnu cymysg yn cael eu cynnal ar y safle).
- Cafodd pob safle a oedd yn gyfleuster deunyddiau hysbysu yn 2022 eu cynnwys yng nghwmpas y rheoliadau diwygiedig.
- Cafodd y mewnbynnau data eu hasesu ar gyfer y safleoedd a oedd yn weddill i nodi'r rhai oedd i'w gweld o fewn y cwmpas.

O'r gweithgaredd hyn mae CNC bron â bod yn sicr y bydd 23 o fewn y cwmpas, a bydd angen rhagor o graffu ar 21 cyfleuster arall cyn penderfynu eu cynnwys neu eu heithrio. Felly, amcangyfrifir y bydd y rheoliadau'n effeithio ar rhwng 23 a 44 o safleoedd yng Nghymru.

**Costau cyfalaf untro**

Cynhaliodd Waite Resource Management a WRAP arolwg o gostau[2]. Gofynnodd yr arolwg hwn i gyfleusterau deunyddiau, y mae disgwyl iddynt fod yn rhan o gwmpas yr arolwg, ddarparu manylion ar gostau i fodloni'r rheoliadau presennol. Gofynnwyd iddynt hefyd amcangyfrif unrhyw gostau ychwanegol i fodloni'r methodoleg samplu mewnbwn a ddiwygiwyd a oedd yn cynnwys categorïau deunyddiau ychwanegol (yn seiliedig ar y rhestr arfaethedig yn ymgynghoriad 2021) a'r cynnydd o ran amleddau samplu ar gyfer pecynnau i 60kg bob 25 tunnell (fel y cynigwyd yn yr ymgynghoriad). Rhannwyd y costau yn rhai gweithredol a rhai cyfalaf. Roedd y costau cyfalaf yn ymwneud ag ystod o eitemau, gan gynnwys cloriannau pwyso, byrddau samplu, cludwr didoli ac adeiladau cludadwy. Cysylltwyd â 33 o fusnesau, gydag ymateb yn dod i law oddi wrth 12 ohonynt. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â chyfleusterau awdurdodau lleol a chyfleusterau preifat yn ogystal â chyfleusterau gwahanol o ran maint, a oedd yn amrywio o 1,500 o dunelli i 160,000 o dunelli y flwyddyn. Defnyddiwyd ymatebion yr arolwg yn sail i'r amcangyfrif o gostau yn Asesiad Effaith Defra.

Nid oes rheswm dros gredu y bydd costau unedau yng Nghymru yn sylweddol wahanol i'r costau a gyflwynir yn Asesiad Effaith Defra ar gyfer y DU gyfan.  O'r herwydd, mae'r un gwerthoedd uned wedi'u cymhwyso yma. Yn sgil yr ansicrwydd yn y dadansoddiad, cyfrifwyd amcangyfrifon isel, canolog ac uchel o ran costau. Mae'r adrannau canlynol yn canolbwyntio ar yr amcangyfrifon canolog, ond cyflwynir yr amcangyfrifon isel ac uchel yn Atodiad I.

Mae gan y costau cyfalaf yn y senario llinell sylfaen amcangyfrif canolog o £0.13 y dunnell o wastraff sy'n cael ei brosesu.  Drwy gynyddu'r amledd samplu sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn, disgwylir i'r costau cyfalaf gynyddu, gyda rhanddeiliaid yn nodi y bydd angen eitemau ychwanegol megis cloriannau pwyso, byrddau samplu, cludwr didoli ac adeiladau cludadwy. Amcangyfrifir y byddai angen cyfanswm o £0.38 y dunnell o wariant cyfalaf ar safle sydd

[2] Estimated Costings and Facility Numbers for EPR Manual Sampling (WRAP/Waite Resource Management Ltd) 2021 (Heb ei gyhoeddi)

newydd dan rwymedigaeth (defnyddiwyd £0.30 a £0.45 y dunnell at ddibenion sensitifrwydd).

Yn gyffredinol, byddai angen i'r safle cyffredin yng Nghymru wario bron £10,000 ar gyfalaf[3]. Mae hyn yn arwain at gyfanswm o ryw £435,000, sy'n £382,000 o gost ychwanegol (cymharol â'r llinell sylfaen).

.

***Tabl 1: Costau cyfalaf i Gyfleusterau Deunyddiau, £***

| | 2024 |
|---|---|
| Llinell Sylfaen | £53,000 |
| Opsiwn 1 | £435,000 |
| Costau Ychwanegol | £382,000 |

**Costau gweithredol parhaus**

Defnyddiwyd yr un data arolwg i ddadansoddi'r costau gweithredol (staff i raddau helaeth) oedd eu hangen o dan y rheoliadau samplu a ddiweddarwyd.

Ar y cyfan, yr amcangyfrif canolog ar gyfer costau gweithredu parhaus yw £1.09 y dunnell (o fewn ystod o £0.60 i £1.22 y dunnell). O dan yr amcangyfrif canolog, y gost weithredol gyfartalog fesul safle yng Nghymru yw tua £28 mil y flwyddyn, sy'n arwain at gostau cyfanredol o ryw £1,247,000.

Unwaith eto, gan fod rhai safleoedd eisoes yn samplu o dan y rheoliadau presennol, rydym wedi amcangyfrif costau'r llinell sylfaen. Yr amcangyfrif canolog ar gyfer cost y llinell sylfaen yw £0.36 y dunnell (o fewn ystod o £0.20 a £0.41 y dunnell). O dan yr amcangyfrif canolog, y costau gweithredol llinell sylfaen cyfanredol yw £146,000 y flwyddyn.  Y gost ychwanegol o ganlyniad i'r rheoliadau hyn felly yw £1,101,000 y flwyddyn.

**Tabl 2: Costau gweithredu parhaus i Gyfleusterau Deunyddiau, y flwyddyn, £**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llinell Sylfaen | £146,000 | | |
| Opsiwn 1 | £1,247,000 | | |

[3] £8,000 yn y senario isaf a £12,000 yn y senario uchaf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ychwanegol | £1,101,000 | | |

**Costau rheoleiddio**

O dan y rheoliadau cyfredol, rhaid i gyfleusterau adfer deunyddiau dalu ffi o £2,240[4] i'r rheoleiddiwr i dalu costau monitro a gorfodi. Bydd y ffi o dan y rheoliadau newydd yn cael ei gosod gan reoleiddwyr ar sail adennill costau. Mae rheoleiddwyr wedi nodi bod rhai arbedion maint yn berthnasol i'r costau hyn ac felly gall y ffi newydd fod yn is. Cyflwynodd Asesiad Effaith Defra dri senario: y senario uchel lle mae'r ffi fesul cyfleuster deunyddiau fel y mae ar hyn o bryd, y canolog lle mae'r ffi yn cael ei gostwng 20%, a'r isel lle mae'r ffi yn cael ei gostwng 50%. O ran yr amcangyfrifon canolog, amcangyfrifir mai'r ffi a delir gan gyfleusterau deunyddiau yng Nghymru yw £79,000 y flwyddyn, cynnydd o £47,000 y flwyddyn ar y llinell sylfaen.

***Tabl 2: Costau rheoleiddio cyfleusterau deunyddiau, y flwyddyn, £***

| | **Llinell Sylfaen** | **Opsiwn 1** | **Costau Net** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Canolog** | £31,000 | £79,000 | £47,000 |
| | | | |

**Costau ymgyfarwyddo**

Rhagwelir y bydd angen i safleoedd dreulio amser yn ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y safleoedd hynny nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd iddynt ddarparu data samplu i'r rheoleiddiwr. Tybir y bydd pob safle yn treulio 10-20 awr yn ymgyfarwyddo â'r gofynion a'r staff hyfforddi. Disgwylir y bydd angen mewnbwn cyfreithiol fel rhan o'r gwaith ymgyfarwyddo ac felly mae'r amcangyfrifon costau yn seiliedig ar gyflog canolrifol gros yr awr gweithiwr yn y sector cyfreithiol/cyfrifeg (£19.03). Mae cynnydd o 22% wedi'i gymhwyso i gyfrif am gostau staff nad ydynt yn weithwyr llafur. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod y gost ymgyfarwyddo yn £15,000. Disgwylir ysgwyddo'r costau hyn yn 2024.

[4] Yn Lloegr: https://www.gov.uk/government/publications/materials-facilities-how-to-report-on-mixed-waste-sampling

***Tabl 3: Costau ymgyfarwyddo i gyfleusterau deunyddiau, £***

| | **2024** |
|---|---|
| | |
| **Canolog** | £15,000 |
| | |

**Crynodeb o'r costau**

***Tabl 4: Cyfanswn costau ychwanegol cyfleusterau deunyddiau (net llinell sylfaen), £***

| | **2024** | **2027** | **2033** |
|---|---|---|---|
| Costau cyfalaf | 382,000 | - | - |
| Costau gweithredol | 1,101,000 | 1,101,000 | 1,101,000 |
| Costau ymgyfarwyddo | 15,000 | | |
| Costau rheoleiddio | 47,000 | 47,000 | 47,000 |
| Cyfanswm y costau | 1,546,000 | 1,148,000 | 1,148,000 |

Mae Tabl 4 yn crynhoi'r costau ychwanegol (net llinell sylfaen) ar gyfer y senario canolog. Yn gyffredinol, gellir egluro costau ychwanegol i fusnesau cyfleusterau deunyddiau i raddau helaeth gan y nifer cynyddol o safleoedd y disgwylir iddynt fod o fewn cwmpas, yn ogystal â'r samplu cynyddol sy'n ofynnol o dan y rheoliadau newydd. Wrth ystyried cyfanswm y costau i'r diwydiant fesul safle, gan dybio costau cyfalaf blynyddol[5], mae'r cynnydd blynyddol cyfartalog mewn costau fesul safle cyfleuster deunyddiau oddeutu £18-31 mil. Mae hyn yn gweithio allan, ar gyfartaledd, i fod yn £0.70 i £1.20 ychwanegol fesul tunnell o fewnbwn. Yn adroddiad diweddaraf WRAP, mae'n amcangyfrif mai'r ffi glwyd canolrifol[6] ar gyfer cyfleusterau adfer deunyddiau a adroddwyd gan awdurdodau lleol yn 2019/20 oedd £43-£53 y dunnell. Gan dybio bod cyfleusterau deunyddiau yn trosglwyddo cost lawn y gofynion samplu

[5] Dros 10 mlynedd
[6] Y ffi a godir gan MRFs am wastraff y maent yn ei gymryd fel mewnbwn

ychwanegol hyn i gwsmeriaid, byddai disgwyl i ffi glwyd cyfleusterau adfer deunyddiau ar gyfartaledd gynyddu 1.5% - 2.3%.

O dan y Rheoliadau, bydd cyfleusterau deunyddiau yn gallu defnyddio technoleg canfod gweledol (yn lle samplu â llaw), ar yr amod y gallant ddangos i reoleiddwyr bod y gofynion samplu lleiaf yn dal i gael eu bodloni. Mae dull o'r fath yn debygol o arwain at gostau cyfalaf cychwynnol uwch ond yn gostwng costau gweithredu parhaus oherwydd y nifer is o staff sy'n ofynnol.

**Buddion**

Fel y nodir uchod, nod Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yw sicrhau bod cynhyrchwyr deunydd pacio yn gyfrifol am gost lawn rheoli'r deunydd pacio y maent yn ei roi ar y farchnad.

Er mwyn i'r system weithredu'n effeithlon, mae angen darparu data gwell ar wastraff deunydd pacio sy’n cael ei gasglu, ei grynhoi, a'i ddidoli gan gyfleusterau deunyddiau. Bydd y data a gesglir gan y cyfleusterau hyn ar gyfansoddiad gwastraff yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r ffioedd cynhyrchwyr a thaliadau awdurdodau lleol o dan y Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio. Bydd hefyd yn helpu gyda’r gwaith monitro ac i gyflawni targedau ailgylchu a chanlyniadau eraill sy’n ymwneud â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

Mae mwy o ailgylchu deunyddiau pacio yn cynhyrchu deunyddiau eilaidd i'w defnyddio mewn gweithgynhyrchu (e.e. deunydd pacio newydd). Mae hyn yn lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag echdynnu deunydd crai, gweithgynhyrchu deunydd pacio a rheoli gwastraff. Yn gyffredinol, mae ailgylchu deunyddiau pacio yn llai carbon-ddwys nag opsiynau eraill ar gyfer trin gwastraff deunyddiau pacio. Felly bydd y gymdeithas ar ei hennill drwy lai o allyriadau carbon. Mae Asesiad Effaith Defra yn rhoi gwerth o £440 miliwn ar yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gafodd eu hosgoi yn sgil dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a llosgi i ailgylchu drwy gynllun y DU. Disgwylir i fuddion pellach gronni o werthu deunydd eildro ychwanegol ac o ostyngiad yn y gost o ddelio â gwastraff gweddilliol.

Gwneir y rheoliadau hyn i wella'r data ar gyfansoddiad gwastraff cyfleusterau deunyddiau a ddefnyddir i ddarparu cefnogaeth dystiolaethol i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a chynyddu cywirdeb taliadau cynhyrchwyr a ffioedd dilynol. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad effaith integredig yn benodol ar gyfer cyfleusterau deunyddiau gan fod y polisi yn rhan annatod o'r polisi ehangach ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio ac yn dechnegol yn bennaf o ran ei natur. Ar ben hynny, prin yw'r safleoedd a ganiateir yr effeithir arnynt yng Nghymru. Mae asesiad effaith integredig wedi'i lunio ar gyfer y Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a gellir ei weld yma:

Estyn cyfrifoldebau cynhyrchwyr deunyddiau pacio: asesiad effaith integredig | LLYW.CYMRU

## Asesiad Cystadleuaeth

| Prawf Cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| C1: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai gwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na |
| C5: Ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad? | Nac ydy |
| C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu bosibl nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu bosibl nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| C8: Ydy'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydy |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na |

Cwestiynau 1, 2 a 3

Mae gweithredwyr yng Nghymru sy'n dod o fewn cwmpas Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn cael eu rheoli gan gwmni preifat neu awdurdod lleol ac maent o fewn y paramedrau a nodwyd ar gyfer cyfrannau marchnad.

Cwestiynau 4, 5, 6 a 7

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i'r holl gyfleusterau deunyddiau sy'n derbyn 1000 tunnell neu fwy. Mae'n ofynnol i bob gweithredwr fesur, cofnodi ac adrodd o dan yr un rheoliadau fel mater o drefn.

Fel yr eglurir yn Asesiad Effaith Defra (tudalennau 97-98), er mwyn osgoi gosod cost anghymesur posibl ar safleoedd llai, cedwir y de minimis presennol ac eithrio safleoedd o dan 1,000 tunnell o fewnbwn. Bydd hyn wedyn yn cael ei adolygu yn 2026/27 fel rhan o adolygiad cychwynnol ehangach o Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

Cwestiwn 8

Mae technolegau newydd yn cael eu datblygu dros amser i wella prosesau ond ni chânt eu datblygu'n gyflym.

Cwestiwn 9

Pwrpas arfaethedig y Rheoliadau yw gwella'r deunyddiau mewnbwn ac allbwn a reolir gan gyfleusterau deunyddiau. Bydd gan gyflenwyr cyfleusterau deunyddiau y gallu i asesu perfformiad y cyfleuster gan eu galluogi i wneud dewis mwy gwybodus ynghylch pa weithredwyr i'w defnyddio.

Bydd y rheoliadau newydd o ran Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio yn gosod costau newydd ar gyfleusterau deunyddiau gan y bydd gofyn iddynt gyflawni gwaith samplu a dadansoddi cyfansoddiadol estynedig, yn ogystal â thalu costau ymgyfarwyddo a chostau rheoleiddiwr. Mae'r costau ychwanegol hyn yn cynyddu cost mynediad i'r sector a gallent leihau nifer y cystadleuwyr. Fodd bynnag, gellir trosglwyddo costau gweithredol i'r rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster drwy ffioedd clwyd. Mae'n ofynnol i rai gyfleusterau deunyddiau gyflwyno data samplu a chyfansoddiad o dan y rheoliadau presennol ac o'r herwydd mae ganddynt ryw fath o fantais gan y rhagwelir eu bod eisoes wedi gwneud y buddsoddiadau cyfalaf a gweithredol sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Dylid nodi, fel y trafodwyd yn yr adran dadansoddi cost a budd, y disgwylir gweld cynnydd o ryw 1.5-2.5% yn unig mewn costau yn sgil y gofynion hyn.

Disgwylir i gostau gweithredol cynyddol sy'n gysylltiedig â samplu hefyd fod yn is ar gyfer cyfleusterau deunyddiau mwy o faint, oherwydd arbedion maint, a chanfuwyd cydberthynas negyddol rhwng cost fesul tunnell a maint safle. O'r herwydd, mae cyfleusterau llai mewn mwy o berygl o fethu â chystadlu mor effeithiol yn y farchnad hon oherwydd y gofynion newydd sy'n angenrheidiol ar

gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio.  Yng ngoleuni hyn, mae'r eithriad de minimis presennol yn cael ei gadw i ddiogelu'r cwmnïau lleiaf felly dylent aros yn y farchnad fel cyfyngiad cystadleuol pwysig.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Mae'r rheoliadau sy'n gweithredu'r diwygiadau ehangach i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, y mae'r diwygiadau hyn yn rhan ohonynt, yn cynnwys gofyniad am adolygiad gan y bedair gwlad. Cynigir bod yn rhaid cyhoeddi adroddiad yr adolygiad cyntaf cyn 31 Rhagfyr 2028, rhaid cyhoeddi adroddiadau adolygu dilynol ar gyfnodau heb fod yn fwy na phum mlynedd.

## ATODIAD I: AMCANGYFRIFON O GOSTAU AR GYFER CYMRU

Fel yr esboniwyd uchod, yn sgil yr ansicrwydd yn y dadansoddiad, cafodd amcangyfrifon 'isel', 'canolog' ac 'uchel' o gostau eu cynnwys yn Asesiad Effaith Defra. Mae'r Atodiad hwn yn cyflwyno'r costau hynny ar gyfer Cymru (nid yw costau llinell sylfaen wedi'u didynnu). Mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Costau Cyfalaf

***Tabl A1: Costau cyfalaf i gyfleusterau deunyddiau, £***

| | 2024 |
|---|---|
| Isel | £343,000 |
| Canolog | £435,000 |
| Uchel | £515,000 |

Costau Gweithredu Parhaus

***Tabl A2: Costau gweithredu parhaus i gyfleusterau deunyddiau, £***

| | Y flwyddyn |
|---|---|
| Isel | £686,000 |
| Canolog | £1,247,000 |
| Uchel | £1,396,000 |

Costau Rheoleiddio

***Tabl A3: Costau rheoleiddio i gyfleusterau deunyddiau, £***

| | Y flwyddyn |
|---|---|
| Isel | £49,000 |
| Canolog | £79,000 |
| Uchel | £99,000 |

Costau Ymgyfarwyddo

***Tabl A4: Costau ymgyfarwyddo i gyfleusterau deunyddiau, £***

| | 2024 |
|---|---|
| Isel | £10,000 |
| Canolog | £15,000 |
| Uchel | £20,000 |